# Mynd i'r afael â gofynion ar gyfer trefniadau arbennig mewn llysoedd a thribiwnlysoedd

## Trosolwg

Mae'r safon hon ynglŷn â mynd i'r afael ag achosion lle mae angen gwneud trefniadau arbennig mewn llysoedd a thribiwnlysoedd, a threfnu bod y rhain ar gael.

Mae'r safon hon ar gyfer unigolion, y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys trefnu bod mesurau arbennig yn cael eu darparu mewn llysoedd a thribiwnlysoedd, gan gynnwys darparu sgriniau ar gyfer tystion, cyfathrebu a defnyddio offer.

Gall achosion fod naill ai'n droseddol neu'n sifil mewn llysoedd neu dribiwnlysoedd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwirio pan fydd angen trefniadau arbennig, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol 2. cadarnhau gyda phobl briodol y trefniadau arbennig sydd eu hangen, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol 3. gwneud trefniadau arbennig cyn gwrandawiadau, yn unol â gofynion sefydliadol 4. mynd i’r afael â phroblemau ag argaeledd neu ddefnydd o offer, yn unol â gofynion sefydliadol 5. paratoi ystafelloedd gwrandawiad, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol 6. cadarnhau bod cynlluniau ystafelloedd yn addas ar gyfer trefniadau arbennig, yn unol â gofynion sefydliadol 7. gosod offer, yn unol â chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr a gofynion sefydliadol 8. profi bod offer yn gweithio’n gywir, yn unol â chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr a gofynion sefydliadol 9. gadael cyfarwyddiadau clir i bobl eraill eu dilyn wrth weithio offer 10. tynnu offer o ystafelloedd llys a thribiwnlys ar ôl eu defnyddio, yn unol â gofynion sefydliadol 11. storio offer, yn unol â gofynion sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y mathau o drefniadau arbennig sydd ar gael 2. manteision ac anfanteision trefniadau arbennig ar gyfer defnyddwyr a phroses gysylltiedig y llys a'r tribiwnlys 3. bod gofynion a gweithdrefnau sefydliadol presennol ar gyfer nodi trefniadau arbennig yn cael eu defnyddio mewn llysoedd a thribiwnlysoedd 4. lleoliad offer trefniadau arbennig 5. gweithdrefnau adrodd, gan gynnwys pwy y dylid ei hysbysu pan fydd offer trefniadau arbennig yn ddiffygiol 6. y gweithdrefnau ar gyfer gwneud trefniadau arbennig ar ddiwrnod gwrandawiadau 7. sut i baratoi ystafelloedd gwrandawiad trwy osod offer arbennig ynddynt 8. sut i osod, profi a gweithio offer a ddefnyddir ar gyfer trefniadau arbennig 9. pwysigrwydd gadael cyfarwyddiadau clir ynglŷn â defnyddio offer ar gyfer y rheiny sy'n eu gweithio tra byddant mewn llysoedd a thribiwnlysoedd 10. gofynion sefydliadol ar gyfer storio offer

SFJDB6

Mynd i’r afael â gofynion ar gyfer trefniadau arbennig mewn llysoedd a thribiwnlysoedd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2023 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau er Cyfiawnder |
| **RCU gwreiddiol** | SFJ DB6 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Llys, Swyddog erlyn, Swyddog Tribiwnlys |
| **Cyfres/Set** | Llysoedd, Tribiwnlysoedd ac Erlyniadau |
| **Geiriau Allweddol** | Llys; tribiwnlys; achos; trefniadau arbennig; gofynion; adnoddau |